Medi 2021

# Agweddau cyhoeddus at iaith dramgwyddus ar deledu a radio: Adroddiad Cryno

## Ymchwil gan Ipsos MORI dros Ofcom

*Rhybudd: mae'r adroddiad hwn yn cynnwys iaith hynod dramgwyddus ac yn trafod cynnwys a allai achosi tramgwydd.*

Ipsos MORI

Ipsos

# Cynnwys

**Rhagair** ........................................................................ **3**

# Rhagair

Mae teledu a radio yn rhan fawr o bwy ydym ni fel cenedl – maent yn ganolog i'n diwylliant a'n hunaniaeth gyfunol, a hynny yn arbennig yn ystod y 18 mis diwethaf. Gyda llawer ohonom wedi'n gorfodi i dreulio cyfnodau hir gartref, gyda chyfleoedd cyfyngedig i weld ffrindiau a theulu, mae niferoedd digynsail wedi tiwnio i mewn i gadw ein hunain yn ddiddan ac yn wybodus ac er mwyn tynnu sylw oddi wrth heriau'r pandemig.

Mae ein darlledwyr yn darparu ystod enfawr o raglenni drama, realiti, comedi, dogfen a newyddion sydd yn aml yn gallu ysgogi adweithiau ac emosiynau pegynol gan gynulleidfaoedd. Mae'n iawn bod pobl yn disgwyl safonau penodol ar deledu a radio – ac mae hynny'n golygu dweud eu dweud pan fyddant yn dod ar draws rhywbeth sy'n eu poeni nhw. Dyna lle mae gennym ni rôl.

Yn Ofcom, un o'n prif gyfrifoldebau yw gosod a gorfodi rheolau ar gyfer teledu a radio darlledu – er mwyn diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol a thramgwyddus, ac ar yr un pryd parchu hawliau i ryddid mynegiant. Mae gwylwyr a gwrandawyr wrth wraidd yr hyn a wnawn. Er mwyn i'n rheolau barhau'n berthnasol ac yn effeithiol, mae'n bwysig i ni wrando a deall o lygad y ffynnon yr hyn y mae pobl yn ei gael yn dramgwyddus a sut mae agweddau'n newid dros amser. Ers ein ton olaf o ymchwil debyg bum mlynedd yn ôl, mae wedi bod yn hynod ddiddorol gweld sut mae chwaeth a goddefiannau wedi symud neu, yn wir, wedi aros yr un fath.

Eleni, rydym wedi ymgysylltu â detholiad ehangach a mwy amrywiol o wylwyr a gwrandawyr nag erioed o'r blaen. Roedd hyn yn cynnwys oedolion o bob oedran, yn byw ledled y DU, yn ogystal â rhai o amrywiaeth o grwpiau a chymunedau lleiafrifol – gan gynnwys pobl Dduon a Caribïaidd, pobl Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd, pobl anabl, a'r cymunedau LHDTC+ a Sipsiwn a Theithwyr. Gwnaethom hefyd ehangu ein grwpiau ffocws i gynnwys sesiynau pwrpasol gydag aelodau o'r cymunedau Iddewig a Tsieineaidd am y tro cyntaf.

Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym, er eu bod am i ddarlledwyr roi ystyriaeth ofalus i pryd a sut y defnyddir iaith dramgwyddus ar y teledu a'r radio, iddynt bwysleisio'r rôl bwysig y gall ei chwarae ym maes darlledu. Soniodd cyfranogwyr, er enghraifft, am ddefnyddio iaith dramgwyddus er effaith ddramatig, er hiwmor, i adlewyrchu bywyd go iawn neu i hysbysu ac addysgu. Mae ein haseswyr cynnwys yn cydnabod hyn hefyd, ac rydym bob amser yn cymhwyso ein rheolau mewn ffordd sy'n ystyried rhyddid a mynegiant creadigol. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos tuedd barhaus o agweddau cynyddol hamddenol ynghylch defnyddio rhegfeydd. Roedd gan wylwyr a gwrandawyr bryderon cyfyngedig, cyn belled â bod yr iaith gryfaf yn cael ei darlledu ar ôl y trothwy a bod rhieni'n cael digon o wybodaeth i gyfeirio eu penderfyniadau am yr hyn y gallai eu plant ei wylio a gwrando arno.

Ar y llaw arall, gan adlewyrchu pryderon cynyddol mewn cymdeithas, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym iddynt deimlo'n gynyddol bryderus am iaith wahaniaethol, yn enwedig o ran hil. Dywedodd gwylwyr a gwrandawyr eu bod yn disgwyl i ddarlledwyr fod yn hynod o ofalus i roi'r mathau cryfaf o iaith wahaniaethol yn eu cyd-destun er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu. Gwnaethom nodi hefyd, fodd bynnag, lawer o gyfranogwyr nad oeddent eisiau gweld yr holl raglenni hŷn â chynnwys a allai fod yn broblemus, yn diflannu o'n sgriniau'n llwyr. Unwaith eto, pwysleisiodd cynulleidfaoedd yn gyson fod cyd-destun, yn hyn o beth, yn allweddol. Pa raglen a sianel y cafodd ei darlledu arni? Ac ar ba amser? Beth fyddai cynulleidfaoedd y sianel yn ei ddisgwyl? A roddwyd rhybudd neu wybodaeth arall i wylwyr am gynnwys a allai fod yn dramgwyddus i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid troi'r rhaglen i ffwrdd?

20-093867-01| Cyhoeddus | Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â gofynion y safon ryngwladol ar gyfer Ymchwil Marchnad, ISO 20252, ac yn unol â Thelerau ac Amodau Ipsos MORI sydd ar gael yn http://www.ipsos-mori.com/terms. © Ofcom, 2021

Mae'n bwysig cofio nad oes unrhyw hawl absoliwt i beidio â chael ein tramgwyddo gan y pethau a welwn ac a glywn ar y teledu a'r radio. Yn yr un modd â hawliau i ryddid mynegiant, gall darlledwyr gynnwys deunydd yn eu rhaglenni a allai fod yn dramgwyddus ond, er mwyn aros o fewn ein rheolau, mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn darparu cyd-destun a diogelwch digonol i gynulleidfaoedd. Bydd y canfyddiadau hyn yn helpu darlledwyr i wneud y dyfarniadau hyn sydd yn aml ar fin y gyllell ac yn cyfeirio eu penderfyniadau am ddarlledu iaith dramgwyddus a chynnwys arall yn well. Mae'r adroddiad hefyd yn ein helpu ni yn Ofcom i ddeall a chymryd barn y gynulleidfa i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau cymhleth a thrwch blewyn am gynnwys a allai fod yn dramgwyddus ar y teledu a'r radio, ar yr un pryd â rhoi ystyriaeth lawn i ryddid mynegiant.



**Adam Baxter**
**Cyfarwyddwr, Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd**
**Medi 2021**